**CYFARFOD Y CYNGOR,** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Hydref 2022, fel cyfarfod hybrid gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. Walker a Mrs M. A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 57. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Miss S. L. Roberts, D. Simmons a Miss C. L. Williams.

## 58. CYFLWYNIAD I GYNULLEIDFA EGLWYS Y SANTES FAIR A'R COR FFILIPINO

Croesawodd y Maer y Tad Anthony Nnamah, May Castillo ac aelodau'r côr i''r cyfarfod gan ddiolch iddynt oll am eu rhan yn ei gwasanaeth dinesig.

Cyfeiriodd y Maer at y gwasanaeth hyfryd, y lluniaeth rhagorol, yr addurniadau a'r blodau a'r côr hynod, a chyflwyno tystysgrif o ddiolch wedi ei fframio iddynt.

## 59. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir (copiau'n amgaeëdig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 28ain Medi 2022 | - | Rhifau Cofnod | 42-56 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd ymddiheuriadau'r Cynghorydd D. Simmons wedi eu cofnodi ac y byddai'r cofnodion yn cael eu newid i'w cynnwys.

Mewn perthynas â chofnod rhif 44 (Cyflwyniad: Cyngor Sir Ddinbych – Mr Mike Jones – Datblygiad Promenâd y Rhyl), cyfeiriodd y Cynghorydd A. R. James at y sgwrs am Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl (MAG) a gynhaliwyd yn yr eitem a darllenodd yn uchel ymateb a gafodd gan Uwch Swyddog Cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych, Mr Gary Williams.

Codwyd y mater o wahardd cynghorwyr tref o fwyafrif cyfarfodydd MAG y Rhyl, gan wahodd ond cynghorwyr sir y Rhyl, gan y Cynghorydd James ar ran y Cyngor Tref.

Roedd ymateb Mr Williams yn esbonio mai pwrpas y cyfarfodydd oedd trafod gyda a hysbysu cynghorwyr sir ar faterion sirol, a bod y Cyngor Tref yn awdurdod ar wahan.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs P. M. Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 60. CYFLWYNIAD: PENNAETH COLEG LLANDRILLO, MR LAWRENCE WOOD

Adroddodd y Maer bod Mr Wood, yn anffodus, wedi adrodd nad oedd yn gallu mynychu cyfarfod heno bellach, ac y byddai'r cyflwyniad yn cael ei ad-drefnu.

## 61. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at ddigwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer a ran y Cyngor Tref dros y mis diwethaf (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), yn enwedig ei gwasanaeth dinesig yn Eglwys Gatholig y Santes Fair, a oedd wedi bod yn ddigwyddiad hyfryd, a diolchodd unwaith eto i bawb yn yr eglwys am y croeso a gofalu mor dda am bawb a fynychodd.

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at 53fed Noson Siarter Clwb Llewod Prestatyn a'r Rhyl a dywedodd ei bod yn edmygu'n fawr y gwaith y maent yn ei wneud a'i bod wirioneddol wedi mwynhau'r noson.

Diolchodd y Maer hefyd i'r Cynghorydd Mrs E. M. Chard am ei phresenoldeb yn Arddangosfa Hanesyddol Brwydr Prydain yn Neuadd y Dref y Rhyl ar ei rhan ac fel cyn-Faer.

## 62. ADRODDIAD TALIADAU A ERBYNEBAU (ATODLEN A) MEDI 2022

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed a'r incwma. dderbyniwyd.

| Rhif Taleb. | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1477 | BT | 269.17 | Llinell ffôn a rhyngrwyd |
| 1478 | HSBC | 11.05 | Taliadau banc 17 Gorffennaf – 16 Awst 2022 |
| 1487 | Gunsmoke Communications | 1280.00 | Ffi reoli Awst 2022 |
| 1488 | CthEF | 2936.38 | Didyniadau PAYE Awst 2022 |
| 1489 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4339.63 | Didyniadau pensiwn ac ariannu diffyg Awst 2022 |
| 1490 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7483.87 | Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl Medi 2022 |
| 1391 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl |
| 1419 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser - taliad 5 o 12 |
| 1435 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2000.00 | Swyddog Arbed Ynni 22/23 – taliad 2 o 4 |
| 1491 | BT | 239.00 | Rhentu llinell |
| | **Cyfanswm taliadau** | **20,211.76** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 63.70 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Money Manager | 15.58 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.51 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.51 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 28.87 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 28.87 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 28.87 |
| | **Cyfanswm incwm** | **212.91** |

## 63. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Llinell Gymorth Plant Chernobyl Gogledd Cymru | 2 x docyn i Noson Gala 29ain Hydref 2022 | 1501 | 76.00 |
| Clwb Llewod Prestatyn a'r Rhyl | 2 x docyn i ddigwyddiad ar 15fed Hydref 2022 | 1502 | 50.00 |
| Corfflu Cadetiaid Môr Navy League | 2 x docyn i Ginio 80ain Pen-blwydd ar 21ain Hydref 2022 | 1507 | 60.00 |
| Sioned Graham-Cameron | Gwasanaeth cyfieithu | 1512 | 402.60 |
| Clwb Lles ac Adloniant Gwasanaeth Tân ac Achub y Rhyl | Cyfraniad tuag at Goelcerth a Thân Gwyllt 2022 | 1513 | 5,000.00 |
| One Stop Promotions Ltd | 2 x Baner Cymru ar gyfer y Gerddi Coffa | 1514 | 158.40 |
| Plantscape Ltd (G. Burley & Sons) | 2 x addurniadau crog coeden Nadolig | 1515 | 328.80 |
| Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru | Ffi blynyddol 2022/23 | 1516 | 100.00 |
| Y Cyngh D. L. King | Treuliau maer ar gyfer Medi 2022 | | 175.80 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£6,351.60** |

**Taliadau Brys:** Cymeradwywyd talebau 1501, 1502, 1507 a 1515 gan Glerc y Dref gan fod angen gwneud taliadau i sicrhau tocynnau/nwyddau.

**Taliadau cerbyn:** Un taliad cerdyn (Taleb rhif 1514) i gwblhau archeb arlein.

Nododd Clerc y Dref bod camgymeriad ar yr atodlen mewn perthynas â'r taliad a wnaed i'r Maer am dreuliau, a ddylai fod yn £152.40, ac nid £175.80 fel y cofnodwyd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ddiwygiedig i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**64. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI - CHWARTER 2 2022/23**

Ymhellach i gofnod rhif 32 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Gorffennaf 2021, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos elw bychan o £516.31.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**65. PENODI LLYWODRAETHWR CYMUNEDOL YSGOL – YSGOL EMMANUEL**

Adroddodd y Maer am ymddiswyddiad y Cynghorydd Mrs M. A. Walker o'i swydd fel Llywodraethwr Cymunedol ychwanegol y Cyngor, a gofynnodd i'r aelodau ystyried penodi rhywun yn ei lle.

Hysbysodd y Cynghorydd Ms V. Roberts Glerc y Dref nad oedd Ysgol Llywelyn wedi derbyn ei llythyr penodi fel Llywodraethwr Cymunedol ychwanegol y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Gohirio'r penodiad tan gyfarfod nesaf y Cyngor.*

*(ii) Bod Clerc y Dref yn ymchwilio i'r hyn sydd wedi digwydd i lythyr penodi'r Cynghorydd Roberts i Ysgol Llywelyn ac adrodd yn ôl iddi.*

**66. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**67. EITEM YCHWANEGOL: CAIS GAN GYNGOR SIR DDINBYCH – MR WESLEY HUTTON**

Adroddodd Clerc y Dref yn gyfrinachol bod Mr Hutton wedi adnabod cwpl lleol a oeddm yn ei farn ef, yn haeddu cydnabyddiaeth am eu sesiynau codi sbwriel dyddiol bron ar hyn y promenâd a'r traeth.

***PENDERFYNWYD*** *bod llythyr o ddiolch gan y Maer yn cael ei anfon at y cwpl.*

**68a. GOLEUADAU**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ar wahan i'r rhaglen) yn gofyn am awdurdod i roddi'r contract cynllun prydlesu goleuadau allan drwy Gwerthu i Gymru.

Awgrymodd Clerc y Dfref hefyd bod y contract yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (CSG) i'w ystyried yn llawn cyn rhoi argymhellion i'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *bod y mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor CSG ac awdurdodi Clerc y Dref i roddi'r contract allan i dendr drwy Gwerthu i Gymru.*

**68b. TREFNIADAU GWASANAETH SUL Y COFFA 2022**

Hysbysodd Clerc y Dref yr aelodau yn gyfrinachol o'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau eleni, a fyddai, nawr bod cyfyngiadau Covid wedi eu codi, yn debyg iawn i'r ddarpariaeth cyn y pandemig.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r trefniadau a bod Clerc y Dref yn rhyddhau datganiad i'r wasg yn hysbysu'r cyhoedd y byddai pethau 'fel arfer' eleni.*

**69. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………..………..